



SAFLE TREFTADAETH Y BYD  
**Llechi Cymru**  
**Wales Slate**  
WORLD HERITAGE SITE

**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y**  
**Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin**  
**Mehefin 2023**



**unesco**

The Slate Landscape of  
Northwest Wales  
Inscribed on the World  
Heritage List in 2021

**Ymddiheuriadau:** Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Gary Robinson (Prifysgol Bangor), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Christopher Catling (RCAHMW), Michael Bewick (JW Greaves),

**Presennol:**

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cyng. Nia Jeffreys, Dafydd Gwyn (Govannon), Kate Roberts (CADW), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd - Cofnodi), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Louise Baker (RCAHMW), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Elen Roberts (Amgueddfa Genedlaethol), Esther Roberts (Amgueddfa Genedlaethol; Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Kath Davies (Amgueddfa Genedlaethol), Sian Rees (ICOMOS-UK), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd); Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Ashley Batten (CADW)

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.	
<p><b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi</b></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.</p> <p>Fe fydd Cydlynnydd Safle Treftadaeth edd Orllewin Cymru (Dan Amor) yn cychwyn gyda ni 10fed o Orffennaf</p> <p>Fe fydd Rheolwr Prosiect Llewyrch o'r Llechi (Tom Simone) yn cychwyn gyda ni 14eg o Awst</p>	
<p><b><u>1.</u> Diweddariad STyB</b></p> <p><b>Adborth Anffurfiol ar Ddatblygiadau</b></p> <p>Roedd Hannah eisoes wedi cylchredeg dogfen ynghylch yr uchod. Pwrpas y ddogfen ydy codi ymwybyddiaeth datblygwyr arfaethedig bod modd i dderbyn adborth anffurfiol ar ddatblygiadau posib o fewn neu gerllaw y STB. Mae'n gyfle i drafod gyda swyddogion a chynrychiolwyr yn ymwneud a rheolaeth a datblygiad y STB mewn dull anffurfiol, cyn y broses cyn-ymgeisio gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.</p> <p>Angen sicrhau ffordd i osgoi unrhyw wrthdaro buddion.</p> <p>Cytunwyd i'r dyfodol cynnal cyfarfod arbennig o'r Grŵp Cadwraeth gyda Cadeirydd y Grŵp Buddion, Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth ac unrhyw aelodau rydym yn teimlo fyddai'n fuddiol pan fydd unrhyw ddatblygwyr eisiau cyngor anffurfiol.</p> <p>Cytunwyd i osod y canllaw ar wefan Llechi Cymru, ac yna i'r Cydlynnydd i gael sgwrs cychwynnol efo'r datblygwyr ac yna cynnig iddynt gyfarfod y Grŵp uchod ar gyfer Adborth Anffurfiol.</p>	

## Is Grŵp Cadwraeth

### Trosolwg

- Adolygiad Cyfnodol - Mae ymateb gan UK National Commission wedi cyrraedd ac nid oes angen i ni wneud mwy o waith arno. Disgwylir derbyn adborth tua mis Hydref.
- Trafodwyd y cyflwyniad a dderbyniwyd gan Zip World ynglŷn a datblygiad posib newydd ar safle Chwarel Penrhyn
- Llyfryn 'Gofalu am y Tirwedd Llechi' ar waith
- Tasg monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Rheolaeth yn mynd i fod yn gyfrifoldeb i'r Cydlynnydd newydd

### Gwarchodaeth

Derbyniwyd diweddariad gan Ashley. Roedd copi o'r diweddariad wedi'i atodi efo papurau'r cyfarfod yma.

- HBO ar safle Chwarel Dinorwig yn ffilmio – enghraifft o ymarfer da, wedi cario allan gwaith cadwraeth fel rhan o'u cytundeb, archeolegydd ar safle trwy'r cyfnod ffilmio, defnyddio contractwyr lleol, a chyfraniad i'r cymunedau cyfagos ar gyfer cynlluniau lleol.
- Proses dynodi yn dynamig, angen ymateb i gyfleoedd/gwybodaeth newydd a chynabod gall yr ardaloedd newid yn y dyfodol.
- Ardaloedd Cadwraeth – adolygiad ardal Blaenau Ffestiniog ar waith, disgwyl argymhellion erbyn diwedd y flwyddyn.

## Is Grŵp Buddion

### Trosolwg (MB)

O ran y cynllun economi cynaliadwy – gweithio efo cymunedau yn bwysig i gael y balans yn iawn. Gobeithio fydd cyfle i fanteisio ar arian SPF er mwyn gallu cefnogi busnesau ac ymgysylltu fwy efo busnesau. Fforymau ayb. Sioned i gael sgwrs efo Michael tu allan i'r cyfarfod yma y.a. rhain. Bydd cyfarfodydd efo busnesau a fydd rhain yn rhywbeth fydd yn cael eu codi.

Hyrwyddo, marchnata a cadw cysylltiad efo busnesau a'r gymuned.

Croeso Cymru yn mynychu'r Grŵp Buddion mis Medi – trafodaeth am Ymwelwyr Rhyngwladol.

### Adnoddau Llechi

Roedd Hannah wedi cylchredeg papur trafod cyn y cyfarfod.

Angen ychwanegu CADW i'r ddogfen.

Angen trio dal yr adnoddau sydd yna.

### Panel Dehongli Abergynolwyn

Cyfeiriwyd at y sylw a dderbyniwyd gan unigolyn y.a. Panel Dehongli yn Abergynolwyn. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar ddatrasiad – bydd modd cynnig gosod panel ychwanegol gan gyfeirio at hanes cynnar a hwyr y chwarel (perchnogion lleol). Fe fydd angen cysylltu gyda'r Cyngor Cymuned lleol i drafod. Diolchwyd i CADW am sicrhau y cyllid i greu panel newydd os oes angen.

## 4. Ariannu

<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cynllun Llewyrch o'r Llechi</b></li> </ul> <p>Rhannodd Hannah gyflwyniad byr yn diweddar ar y cynllun Llewyrch o'r Llechi (LUF)</p>	HJ
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ail ddatblygiad yr Amgueddfa Lechi</b></li> </ul> <p>Derbyniwyd diweddariad gan Esther Roberts.</p> <p>Derbyniwyd y sylw bod yr amserlen yn heriol iawn. Nodwyd bod arian craidd ar gael os bydd problem.</p> <p>Erbyn cyfarfod nesaf, bydd Esther yn medru rhoi mwy o fanylion.</p> <p>Gwaith ymgynghori wedi digwydd ond dipyn yn ôl – nodwyd byddai'n fuddiol cynnal dyddiau agored, gofyn am fewnbwn, gweithdai, mewnbwn ar ddyluniadau ayb. Cododd Sioned yr ymgynghoriaeth trafndiaeth cyhoeddus ynglyn a Llanberis – roedd Esther yn cytuno bod yn werth cael trafodaeth efo Trafnidiaeth Cyhoeddus.</p>	ER
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cynllun Loteri</b></li> </ul> <p>Cynhaliwyd Gweithdy canlyniadau a grwpiau targed/gweithgareddau er mwyn cyrraedd y cymunedau yn ddiweddar.</p> <p>Dyma oedd blaenoriaethau y mynychwyr:</p> <p>Gwella llesiant a sgiliau Gwella'r cymunedau lle mae'r pobol yn gweithio a byw.</p> <p>Cynhaliwyd Cystadleuaeth ffotograffiaeth yn ddiweddar – mae arddangosfa o luniau'r enillwyr yn yr Amgueddfa Lechi ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd Lucy yn cychwyn paratoi Rownd 2 o'r Cais Loteri yn fuan. Bydd Lucy yn cysylltu efo'r partneriaid i drafod cyd-ariannu ac ymrwymadau amser/staffio.</p> <p>Prosiect Hanes llafar wedi cychwyn. Cyfnod yr 80'au wedi'i adnabod fel pwnc gan fod blwch yn y cofnod dros y cyfnod. Bydd Amgueddfa Lechi Cymru a Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn partneriaid yn yr elfen yma o'r prosiect. Tendr ar gyfer briff comisiwn dehongli rhithiol ar fin fynd allan.</p> <p>Rydym wedi cynnal sesiwn i beilota hyfforddiant i staff sy'n croesawu'r cyhoedd er mwyn eu cefnogi i adrodd stori ein STyB, cyfeirio pobl at lleoliadau perthnasol ar draws y safle ac i godi ymwybyddiaeth o brif negeseuon ein STyB. Cafodd ei gynnal yn yr Amgueddfa Lechi ddoe. Roedd 16 yn bresennol o 7 cwmni/sefydliad. Wedi datblygu pecyn gwybodaeth ddrafft i gydfynd a'r cwrs gyda lot fawr o wybodaeth ac adnoddau i staff.</p>	LT
<p>Bydd eitem ar Cyfathrebu ar raglen y cyfarfod yma yn y dyfodol.</p>	HJ
<p><b>Themâu trawsbynciol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Iaith Gymraeg – bydd Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil dros yr haf – adrodd ar y canfyddiadau mis Medi. Cynog Prys i fynychu'r cyfarfod nesaf. Rhoi yr eitem yma fel eitem cyntaf ar agenda y Bwrdd mis Medi.</li> </ul>	HJ

- Economi Ymweld Cynaliadwy – Bydd y cynllun yn cael ei lawnsio 25ain o Fedi. Bydd cyfeiriad at y cynllun yn yr Eisteddfod. Bydd manylion y lawnsio yn cael ei rannu efo aelodau'r Bwrdd Llechi. Rhoi yr eitem yma fel un o'r eitemau cyntaf ar raglen cyfarfod Bwrdd mis Medi.

Cyfeiriodd Andrew Edwards at gwrs newydd Rheoli Twristiaeth sy'n cael ei gynnal ym Mhrifysgol Bangor o fis Medi 2023 ymlaen.

**Unrhyw fater arall**

Eisteddfod – bydd digwyddiad yn cael ei gynnal fel rhan o ddiwrnod Gwynedd Llewyrchus yn yr Eisteddfod ar dydd Mercher, 9fed o Awst. Bydd mwy o fanylion yn cael eu cylchredeg

HJ

Bys T19 o Flaenau Ffestiniog i Llandudno yn cael ei ganslo– gofynnwyd am unrhyw gymorth i sicrhau bod darpariaeth ar gael. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr fel STYB yn nodi pwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus i'r STYB

HJ

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 22ain o Fedi.